

## PAX – Coffáu Canmlwyddiant Apêl Heddwch Merched Cymru

Gan mlynedd yn ôl, aeth grŵp o ferched Cymru, wedi'u sbarduno gan effaith erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf, ati'n ddygn i gasglu enwau gwagedd ar ddeiseb heddwch a fyddai'n cyfrannu tuag at y nod o roi diwedd ar bob rhyfel.

Ac ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched (8 Mawrth), mae'n addas ein bod yn cofio ymgyrch arbennig y merched hyn – Apêl Heddwch Merched Cymru. Llofnododd y nifer anhygoel o 390,296 o ferched ddeiseb yn galw am 'Gyfraith, nid Rhyfel' i'w chyflwyno i Arlywydd Unol Daleithiau America ar y pryd, Calvin Coolidge. Yn ôl y wasg yn Efrog Newydd ar y pryd, roedd y ddeiseb derfynol dros 7 milltir o hyd.

Yn ystod 1923–4, teithiodd Annie Hughes Griffiths, Cadeirydd Cyngrair y Cenhedloedd, a'i chyd-ymgyrchwyr ledled Cymru yn casglu enwau cyn mynd draw i America ar daith heddwch o ddau fis yn casglu mwy o enwau ac i gyflwyno'r ddeiseb i'r Arlywydd. Yng ngeiriau'r ddeiseb: 'Nid ydym wedi ein hysgogi gan unrhyw gymhellion gwleidyddol. Siaradwn yn unig fel merched Cymru – merched cenedl sy'n rhoi bri ar beidio â choleddu casineb tuag at unrhyw wlad neu bobl, a'n dyhead yw y bydd cyfeillgarwch ac ewyllys da yn teyrnasu ar y ddaear.'

I nodi canmlwyddiant yr ymgyrch a'r ddeiseb, mae arddangosfa arbennig – PAX – i'w gweld yn oriel gelf (MOMA) y Tabernacl, Machynlleth. Aethpwyd ati i estyn gwahoddiad i nifer o artistiaid Cymreig cyfoes – yn arlunwyr a beirdd – i ddangos darn o'u gwaith i gynrychioli 'Heddwch', a derbyniwyd ymatebion sy'n cyfuno i greu arddangosfa amrywiol ac effeithiol.

Dywedodd Heledd Wyn Hardy, a fu'n gyfrifol am guradu'r arddangosfa:

Roedd hi'n anrhydedd medru gosod gwaith arlunwyr o wahanol gyfryngau ac arddulliau o fewn yr un arddangosfa, er enghraifft Shani Rhys James gyda Ruth Jên, a chael printiau a lluniau olew.

Mae'r gwaith yn amrywiol, a phob un o'r artistiaid wedi ymateb i heddwch yn ei ffordd bersonol, e.e. rhoddais

ffilm o'r 'fam ddaear' mewn harddwch natur i ddynodi ein cysylltiad gyda natur. Ymatebodd Meinir Mathias gyda portread o Annie, sef arweinydd y merched, ac roedd ymateb Natalie Chapman yn fwy anarchaidd, modern.

Mae celf yn arf bwerus i anfon neges at gynulleidfa. Mae'n amserol ystyried beth allwn ni fel artistiaid ei ddweud am heddwch a sicrhau heddwch byd-eang trwy ein gwaith.



Canolbwynt yr arddangosfa

Mae'r dehongliadau a gyflwynir yma yn rhai eang iawn – o hunanbortread beiddgar Shani Rhys James i gynildeb tri darn gan Elfyn Lewis – *Heddwch, Swnt Enlli, a Maddeuant*. Mae ladiis Cymreig Ruth Jên yn gwneud ymddangosiad yma gan godi gwên, yn ogystal â gwaith gan Iwan Bala – *Tyfiant a Tybed ...* yn ei arddull unigryw. Yn ganolbwynt i'r arddangosfa yr oedd y paentiad trawiadol o gorff ar deils clai wedi'u crasu gan Meri Wells, â'r teitl *Byth Eto* yn coffáu erchylltra Hiroshima.

Dewis Annie Suganami oedd ail-greu ffotograff du-a-gwyn o'r pedair merch a gyflwynodd y ddeiseb ar risiau'r Tŷ Gwyn yn Washington. Mae darlun Meinir Mathias o Annie Hughes Griffiths ei hun yn



Annie Hughes Griffiths gan Meinir Mathias

arbennig o bwerus. Llwyddodd yr artist i ddal cadernid cymeriad Annie, sy'n gwisgo dillad 'benywaidd', pinc, wrth iddi afael yn y ddeiseb, wedi'i hamgylchynu gan adar papur a baner wen yn chwifio'r tu ôl iddi yn symbolau o heddwch. Eglurodd Meinir fod y merched wedi'u clywed yn canu 'O fryniau Caersalem' ar y llong draw i America, a'i bod hi wedi cynnwys rhai geiriau o'r emyn ar yr adar papur.

Mae'r arddangosfa hefyd yn cynnwys cerddi gan nifer o feirdd, yn eu mysg Mererid Hopwood, Menna Elfyn, Sara Louise Wheeler a Sian Northey.

'Nid dim ond merched parchus / mewn esgidiau call' oedd wedi llofnodi'r ddeiseb, yn ôl Sian Northey, 'ond hefyd gwyrachod / a phuteiniaid / a phlant a fagwyd yn y wyrchw'. Ar ddarn hir o bapur, cynhwyswyd enwau rhai o'r gwagedd hyn, oedd yn dod o bob cwr o Gymru: Miss Jones o Ddinbych a Miss Roberts o Benrhiw-ceibr, Mrs Beynon, Blaengwynfi, a Mrs Louisa Jones, Aberystwyth. Tybed beth oedd eu hamgylchiadau nhw?

Profiad iasol i mi oedd gwranddo ar Karen Owen yn adrodd ei cherdd 'Cofeb', â'r diweddgllo sobreiddiol:

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

## PAX – Coffáu Canmlwyddiant Apêl Heddwch Merched Cymru

(parhad o dudalen 1)

Ar y meini hyn sy'n grwm o'n henwau,  
yn gynion lleddf ac yn llwch,  
y mae pob duw yn gelain  
(oni bai am dduw rhyfel)  
ac nid oes neb, neb,  
dim ond y rheini y cerfiwyd eu henwau  
yn annwyl gan ddagrau,  
wedi gweld diwedd rhyfel  
erioed.

Flwyddyn gyfan ers i'r Arlywydd Putin a'i  
fyddin ymosod ar Wcráin gan achosi lladdfa

a dinistr erchyll, gwnaeth yr Arlywydd  
Zelenksy apêl daer ar i wledydd y Gorllewin  
ddangos eu cefnogaeth i'w wlad drwy  
anfon mwy o arfau i ganol y brwydro. Ond  
tybed ai dyna'r ateb mewn gwirionedd?  
Onid oes gan ferched Cymru heddiw ran  
i'w chwarae i geisio newid y diwylliant  
rhyfelgar hwn?

Ar ôl iddynt ddarganfod hanes yr apêl,  
daeth grŵp bychan o ferched o Wynedd  
at ei gilydd yn 2016 i ffurfio Heddwch Nain  
/ Mam-gu. Mae ganddynt dri nod: Cofio,  
Dathlu a Gwireddu. Eu hapêl newydd ar  
gyfer ein hoes ni yw sicrhau: byd heb ryfel,  
gwladwriaeth les i bawb, byd cynaliadwy,  
cyfrifoldeb dros y blaned a bywyd ar y

blaned, arallgyfeirio o'r diwydiant arfau,  
parch a chydaddoldeb i bawb. Am ragor  
o fanylion, cysylltwch â: [heddwchnain.  
mamgu@gmail.com](mailto:heddwchnain.mamgu@gmail.com).

Bydd yr arddangosfa – PAX – i'w gweld  
yn y Tabernacl, Machynlleth, yn rhad ac  
am ddim tan 15 Ebrill; oriau agor: dydd  
Mawrth hyd ddydd Gwener, 10am–4pm;  
dydd Sadwrn, 10am–1pm. Mae'n cynnwys  
cymaint o argraffiadau a delweddau  
cyfoethog – ac mae modd prynu rhai o'r  
gweithiau celf neu brintiau ohonynt. Ewch  
i'w gweld!

Marian Beech Hughes

## ADUNIAD SOULED OUT, 10–12 Chwefror – penwythnos i ieuencid hŷn yng Ngholeg y Bala gan Amy Keen o'r Bala



Roedd Aduniad Souled Out eleni yn  
wirioneddol anhygoel! Ein thema oedd  
'Ar y Graig', ac yn sicr roeddwn i'n teimlo'r  
thema honno'n amlwg drwy gydol y  
penwythnos. Roedd y sgysiaau ar gariad  
diamod Duw tuag atom a sut y gallwn  
ymddiried yn llwyr ynddo yn bendant  
yn rhywbeth yr oeddwn angen ei glywed  
bryd hynny. Mae bob amser yn braf iawn  
mynd i benwythnos Souled Out a themlo  
mor agos at Dduw a dychwelyd adref yn  
teimlo wedi'ch nerthu gan yr Ysbryd Glân.

Fy hoff ran o Souled Out bob amser yw'r  
addoliad, ond yn enwedig yr amser pan  
gawn gyfle i ganu, gweddïo a siarad â'n  
gilydd. Y penwythnos yma, cafodd ei  
enwi, yn briodol iawn, yn 'Dyfnach'. Roedd  
yr awyrgylch yn fendigedig: roeddwn i'n  
teimlo y gallwn ymddiried yn unrhyw  
un a ddaeth i siarad â mi, heb sôn am yr  
anogaeth a gefais gan gymaint o bobl. Er  
gwaethaf y ffaith i mi dreulio'r rhan fwyaf  
o'r noson yn emosynol oherwydd cefais  
fy nghyffwrdd, bydd yn sicr yn parhau i

fod yn atgof annwyl. Roedd y bobl wnes i  
eu cyfarfod yn Souled Out yn wirioneddol  
werthfawr, ac ni allaf aros i gwrdd â nhw  
eto mewn aduniadau yn y dyfodol! Efallai  
yr hoffech chi (pwy bynnag sy'n darllen  
neu'n gwranddo ar hwn ar hyn o bryd)  
ddod draw rywbryd, ac os felly, edrychaf  
ymlaen at gwrdd â chi!

Am fwy o wybodaeth am y gwaith yma,  
cysylltwch â Meryl Walters yng Ngholeg  
y Bala am sgwrs ar 01678 520565 neu  
e-bostiwch [info@souledoutcymru.net](mailto:info@souledoutcymru.net)



Yn fore yn Aizawl



Bore Sul yn Missionvengllang



Gyda'r hwyr – 'edrych dros y brynau pell'



Y cyddwysydd ocsigen yn ei le ac ar waith



Cysegru gwaith Cefyn Burgess yn rhodd i'r ysbyty ar ei chanmlyddiant



Yng nghwmni prif weinyddwr, pennaeth nyrsio a phrifathrawes y coleg nyrsio ac eraill yng ngerddi'r ysbyty

Rwy'n anfon gair i *Cenn@d* o Shillong lle rydym, Nan a minnau, yn aros ar hyn o bryd yn lletyymwelwyr Ysbyty Cenhadol Gordon Roberts yn y ddinas. Mae hi'n ddinas fawr o 800,000 o bobl a'r traffig yma'n 'cronig', fel y dywedodd un o'r meddygon. Gan fod etholiadau yn nhalaith Meghalaya ar 28 Chwefror a dim posib cyrraedd yno bryd hynny, fe drefnon ni i fynd yn syth i Mizoram, i gael cyfarfod efo Synod yr eglwys yno yn gyntaf a bwrw'r Sul yn Aizawl, eu prifddinas.

Cafodd Nan ddwyn cyfarchion i filoedd lawer mewn tair oedfa ar y Sul – oddeutu pum mil yn ôl eu cyfrif – a chael pregethu yn ei rôl fel Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, braint nad estynnir o gwbl i ferched fel arfer. Da oedd cael cwmni'r côr a ddaeth i Gymru a chanu yng ngŵyl Llanw yn 2019, a chael dal i fynd efo pawb yma cyn mynd ymlaen am Shillong ym Meghalaya wedyn, ac at y synodau sydd yno hefyd.

Fel arfer, ar ddydd Gŵyl Ddewi fe fyddwn yn dathlu ein hunaniaeth Gymreig ac os byddwn yn cael y cyfle i fod mewn gwasanaeth, yna byddwn yn diolch i Dduw am ein bendithio ni fel cenedl fechan a gafodd y fath freintiau ysbrydol ers dyddiau Dewi a'r saint Celtaidd.

Ond ar Ŵyl Ddewi eleni yr oedd Nan a minnau'n cael y frain o fod ymhlith cynrychiolwyr o genhedloedd bychain a llwythau eraill yng Ngogledd-ddwyrain India ac yn cyfarfod efo cynrychiolwyr o

blith tri llwyth Cymanfa Casi Jaintia: y Zou o Manipur, llwythau Bryniau Cachar a'r Mizo. Yr oeddem wedi cyrraedd Shillong ym Meghalaya ac fe gawsom gyfarfod yn Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd India. Buom yn rhannu am ein heglwys ni a sefylla'r eglwys Gristnogol yng Nghymru, a chytuno ar ffyrdd i gryfhau ein perthynas a'n cyd-ddealltwriaeth â'n gilydd.

Wrth fod yma yng Ngogledd-ddwyrain India yr ydym yn cael dathlu felly, nid yr hyn a wnaeth Duw yng Nghymru, ond yr hyn a wnaeth Duw wrth ddefnyddio'r Cymry yn y gwaith o ledaenu'r Efyngyl ymhlith y cenhedloedd bychain yma i gyd.

Clywsom adrodd am yr 1.6 miliwn o aelodau sy'n rhan o Eglwys Bresbyteraidd India, a ninnau bellach, yr Eglwys a ystyrir ganddynt yn 'fam Eglwys' yn cynnwys llai nag 1% o'r nifer mawr hwnnw.

Treulio'r diwrnod yn gweld Ysbyty Gordon Roberts wedyn ar 2 Mawrth, a hwythau'n awyddus iawn inni gael gweld yr hyn oedd wedi ei wneud gyda arian o apeliadau gennym tuag at waith yr ysbyty. Cawsom gyfarfod y canoedd o fyfyrwyr nyrsio annwyl yn yr estyniad hyfryd ar y coleg nyrsio yno a oedd wedi golygu gallu rhedeg cyrsiau BSc mewn nyrsio.

Gweld y peiriant swnllyd wedyn, yr oeddem ni wedi holi yn y nos beth allai o fod. Hwn oedd y generadur ocsigen yr oedd y Llywodraeth wedi ei ariannu yn ystod y pandemig, a chyfraniadau ein haelodau yng Nghymru wedi talu am godi'r adeilad

oedd yn ei gysgodi wrth iddo gyddwysu ocsigen o'r aer ar gyfer defnydd yr ysbyty i gyd. Teimlem yn falch inni gael y frain o allu helpu ym mwrwydr fawr yr ysbyty yn erbyn Covid yma yn y Gogledd-ddwyrain. Cawsom weld pob adran o'r ysbyty heblaw'r ystafell olchi, gyda'r staff yn rhoi amser i'n tywys o gwmpas drwy'r dydd a chael clywed gan bob adran am eu hanghenion a'r pwysau arnynt. Mae'r angen yn fawr yma, ond y weledigaeth a'r galon i wasanaethu drwy estyn pob math o ofal yn enw'r Arglwydd yn un mawr iawn hefyd.

Yn rhan o'n hymwelid yno yr oedd y gwaith o gyflwyno a neilltuo gwaith yr artist Cefyn Burgess a fu ar ymweliad yn ddiweddar ac a gyflwynodd ddyluniad mewn tecstilau o'r ysbyty, y gerddi a'r eglwys gerllaw yn arwydd o'r gofal holistig sydd yma i gorf a meddwl ac enaid.

Fe gyhoeddwyd canlyniadau'r etholiadau rhanbarthol i gynulliad Meghalaya yn ystod y dydd. Erbyn y nos roedd y dref yn ferw gwyllt wrth i'r ymgeiswyr llwyddiannus orymdeithio dan ganu a chwifio baneri eu plaid fuddugol mewn ceir, *pick-ups* a moped, o gwmpas yr etholaeth sawl gwaith. Mae gwleidyddiaeth yn bwysig yma a'r eglwys yn wyladwus o'r pwysau cynyddol arni gan lywodraeth India yn Delhi.

Mae llawer mwy i'w ddweud, ond caf adrodd am yr hyn sydd i'w weld a'i wneud eto pan fyddwn yn nesáu at ei throi hi am adref yr wythnos nesaf.

## Argyfwng y tomatos a'r ciwcymbyrs

O ddarllen rhai o'r penawdau yn y papurau sy'n cario'r faner goch ar y top, gellid yn hawdd credu bod yna argyfwng prinder bwyd difrifol yn ein gwlad ar hyn o bryd! Cafwyd penawdau bras yn sôn am argyfwng y fflw adar, ac y byddai prinder wyau yn y siopau, gan orfodi nifer o archfarchnadoedd i gyfyngu nifer y bocsys wyau y câi pawb eu prynu i dri boc.

Erbyn hyn, llysiâu salad sydd yn y penawdau, gan greu creisis a phanig am nad oes sicrwydd y bydd gan bob siop gyflenwad digonol o ambell lysieuyn ar ein cyfer. 'First world problems,' medd rhai – y pethau bach dibwys sy'n creu penawdau tudalen flaen i ambell bapur newyddion! Bu llawer yn rhannu lluniau o silffoedd gwag ar y cyfryngau cymdeithasol, a'r un pryd yn dangos silffoedd llawn dros gyfandir Ewrop, gan roi'r bai ar Brexit am nad oedd cyflenwad digonol o domatos ar gael ar ein cyfer. Onid yw hi'n bryd i ni geisio bod yn fwy hunangynhaliol, gan ofalu ein bod yn medru tyfu'r nwyddau cyffredin hyn yn nes at adref? O brynu nwyddau ffres yn yr archfarchnad, mae'n rhyfeddol faint mae'r bwydydd hynny wedi teithio i gyrraedd y silffoedd hynny – wedi teithio cryn bellter o wlad dramor i'r ganolfan ddothbarthu, ac eto taith arall oddi yno i'r siop.

Ar hyn o bryd rydym ynghanol Pythefnos Masnach Deg, sy'n cael ei gynnal o ddydd Llun, 27 Chwefror, hyd ddydd Sul, 12 Mawrth. Mae'r ymgyrch honno'n naturiol yn canolbwyntio ar gefnogi cynhyrchwyr mewn gwledydd tlawd, er sicrhau pris theg a chyfiawn i'r ffermwyr. Pan oeddem yn rhan o Ewrop, roedd grantiau a chefnogaeth i ffermwyr Cymru hefyd, i gynhyrchu llefrith a chynhyrchion eraill. Ond ymddengys bod llawer o'r rhain wedi diflannu neu eu cwtogi erbyn hyn, a bod cynnyrch o dramor yn tanseilio prisiau teg i'r ffermwyr yn y wlad yma.

Os ydym o ddifri am gynnal economi leol, datblygu diwydiant amaeth sy'n gynaliadwy ac yn wyrdd, hebsôn am leihau effeithiau niweidiol newid hinsawdd, mae angen hyrwyddo masnachu teg ym mhob rhan o'r gadwyn fwyd. Ac efallai fod angen i ninnau hefyd fel prynwyr y bwyd yma fod yn fwy darbodus a pheidio â disgwyl cynhyrchion ecsotig o bob rhan o'r byd i fod ar gael 12 mis y flwyddyn. Tybed oes angen dychwelyd i batrwm o fwyta bwydydd arbennig yn eu tymor, yn



## Cymru Masnach Deg Fair Trade Wales

hytrach na disgwyl bod popeth ar gael gydol y flwyddyn?

Ond os mai argaeledd tomatos yw ein gofid mawr ni, rydym yn ymwybodol fod yna argyfyngau bwyd gwirioneddol mewn rhai rhannau o'n byd ar hyn o bryd. Mae gwledydd lle mae newyn enbyd yn effeithio ar filiynau o bobl ar hyn o bryd, ac nid prinder ambell lysieuyn ond prinder unrhyw fath o fwyd o gwbl. Ac yn ystod Pythefnos Masnach Deg, rydym yn atgoffa ein hunain unwaith eto fod llawer o gynhyrchwyr ar hyd a lled y byd yn cynhyrchu bwyd ar golled. Maen nhw'n gweithio'n galed i gynnal eu teuluoedd, ond mae'r pris pitw sy'n cael ei dalu iddynt yn gwneud hynny'n amhosibl. Diolch am bythefnos Masnach Deg, sy'n ein hatgoffa o hyd pa mor allweddol yw creu economi fyd-eang sy'n cefnogi pawb sy'n rhan o'r gadwyn fwyd ym mhob rhan o'r byd.

Mudiad sy'n gweithio i hyrwyddo hyn yw Masnach Deg Cymru. Meddai Kadun Rees, Swyddog Cymunedol a Chyfathrebu Masnach Deg Cymru, 'Y thema eleni yw "bwyd". Mae bwyd yn cysylltu ac yn meithrin ein perthynas â'n gilydd a gyda natur. Fe wnaeth y pandemig amharu ar y cysylltiadau hyn, ac rydym eisiau dathlu bod gyda'n gilydd a rhannu iaith gyffredinol bwyd. Yn ystod y pythefnos bydd llu o ddigwyddiadau'n digwydd yn eich cymunedau, yn cael eu cynnal gan eich grŵp Masnach Deg lleol. Ond beth allwch chi ei wneud? Gallwch addo

prynu nwyddau Masnach Deg yn y siopau neu gynnal bore coffi Masnach Deg, fel enghraifft. Mae yna lwyth o adnoddau Cymraeg a ddwyieithog ar ein gwefan: gallwch eu hargraffu neu gallwn anfon copïau atoch.'

Mae argyfwng yr hinsawdd yn fygythiad cynyddol ac uniongyrchol. Mae'r argyfwng yn cael effaith andwyol ar ffermwyr a gweithwyr mewn gwledydd incwm isel a chanol, er mai nhw sydd wedi cyfrannu leiaf at y newid yn yr hinsawdd. Ond trwy brynu nwyddau Masnach Deg gallwch chi helpu i newid hyn.

### Beth yw Masnach Deg?

Mae Masnach Deg yn fudiad byd-eang sy'n rhoi pobl a'r blaned o flaen elw. Credwn y dylai pob ffermwr a gweithiwr, lle bynnag y maent yn byw yn y byd, dderbyn cyflog byw. Mae Cymru yn genedl fach, ond rydyn ni am chwarae ein rhan wrth greu byd gwell. Yn 2008 daeth y Cymry yn Genedl Masnach Deg gyntaf y byd! Felly, prynwch nwyddau Masnach Deg a chewch effaith fyd-eang. Am fwy o wybodaeth ewch draw i'n gwefan: [www.masnachdeg.cymru](http://www.masnachdeg.cymru)

Beth am i ni wneud pob wythnos yn wythnos fasnach deg, wrth i ni brynu cynnyrch o bob math, gan gofio am ffermwyr Cymru a chynhyrchwyr nwyddau mewn gwledydd tlawd ledled y byd?

## Cofio Goronwy Prys Owen

Dydd Sul, 29 Ionawr 2023, bu farw gŵr, tad a thaid annwyl iawn, un oedd yn caru ei deulu ac yn angerddol dros ei Arglwydd a'i Efengyl. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyr ag Eirlys, Siôn Illtud, a Rhiell Elidir, Owain a Gwenno yn eich colled.

Sut mae mynd ati i goffáu bywyd yr hanesydd nodedig y Parchedig Ddr Goronwy Prys Owen, yn enwedig pan fo'r ffan mawr o griced wedi bowllo gŵgli i mi ym mhelawd olaf ei yrfa? Beth oedd hwnnw? Wel, ei ddymuniad pendant am wasanaeth cwbl preifat i'w deulu yn unig, ac mai Croes ei Arglwydd a'i Waredwr Iesu Grist oedd i gael y sylw. Mi fyddaf yn nodi ambell garreg filltir ar bererindod Goronwy, ond mi fyddaf yn ceisio adlewyrchu ei ddymuniad drwy gadw ein golwg ar Iesu, ac nid arno ef. Darllenwyd yr adnodau yma gyda'i deulu:

Nid oes arnaf gywilydd o'r Efengyl, oherwydd gallu Duw yw hi ar waith er iachawdwriaeth i bob un sy'n credu, yr Iddewon yn gyntaf a hefyd y Groegiaid. Ynddi hi y datguddir cyfiawnder Duw, a hynny trwy ffydd o'r dechrau i'r diwedd, fel y mae'n ysgrifenedig: "Y sawl sydd trwy ffydd yn gyfiawn a gaiff fyw"... Yr wyf wedi fy nghroeshoelio gyda Christ; a mwyach, nid myfi sy'n byw, ond Crist sy'n byw ynof fi. A'r bywyd yr wyf yn awr yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw trwy ffydd yr wyf, ffydd ym Mab Duw, yr hwn a'm carodd i ac a'i rhoes ei hun i farw tros of fi." (Rhufeiniaid 1:16; Galatiaid 2:20)

Dechreuodd ar y daith ym Mangor yn 1934, gyda'r disgwyliad y byddai'n dilyn ei dad i redeg y fferyllfa ym Mangor Uchaf. Ond daeth galwad y Meddyg eneidiau i'w ran a'i arwain i'r coleg a'r weinidogaeth ddiwedd y pumdegau. Daeth ei alwad cyntaf i ofalaeth Llidiardau, Tal-y-bont a Chwm Tirmynach ddechrau'r chwedegau, ardal ychydig yn wahanol i'r ddinas a heb gyflenwad trydan ar y pryd. Yma cyfarfu ag Eirlys Pritchard, ac fe'u priodwyd ar 17 Mai 1966. Cawsom y fraint ym mis Gorffennaf 2021 o'i longyfarch ar drigain mlynedd o weinidogaeth, pryd y daeth cynulleidfa dda o'i gyn-ofalaeth at ei gilydd yng Nghapel Cwm Tirmynach.

Gŵr hynod ramantus fu Goronwy erioed, yn mynnu prynu rhosod cochion i Eirlys bob tro yr aent i siopa; dau gariad fuon nhw erioed. Rwy'n nodi hyn am ei fod yn nodweddu hefyd ei gariad serchus at ei Waredwr, yr un oedd y cariad a'r anwylydeb.

Buan daeth yr ysfa genhadol heibio Goronwy, gan ei arwain gydag Eirlys i Faesgeirchen a'r Symudiad Ymosodol, cenhadaeth gartref yr enwad. Gweinidogaeth ymhlith pobl real iawn, gyda'i heriau hefyd, wrth gwrs. Daeth cyfnod hapus wedyn yn ardal Trefor, Llanaelhaearn a Chwm Coryn, gyda dyfodiad y teulu bach. Yma cynhaliodd raliau arloesol i bobl ifanc. Mi fyddai'n dda clywed gan rai fu'n rhan o'r bwrlwm. Roedd Arfon Wyn a'i gyfeillion yn dipyn o sioc i flaenoriaid Gosen.

Daeth cyfnod wedyn yn Heol y Dŵr, Caerfyrddin, Llansteffan a'r Babell, yn ollynydd, fel mae'n digwydd, i Nhaid, Samuel Davies. Yn ystod yr adeg yma daeth cyfle am antur i'r Wladfa, lle bu i'r teulu i gyd elwa ar brofiadau difyr. Wrth gwrs, yno i gyhoeddi'r Efengyl yr oedd Goronwy, gan fwynhau pob cyfle.

Adlewyrchwyd ehangder daearyddol ei weinidogaeth yn ei ddewis yntau o Salm 24 i'w ddarllen: 'Eiddo'r ARGWLWYDD yw'r ddaear a'i llawnder, y byd a'r rhai sy'n byw ynddo.'



Llun: <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/414994Z>

Daeth yr alwad yn ôl i'r gogledd a gweinidogaeth yn Seion, Llanrwst, cyn ymddeol i'r Bala. Braint oedd cael rhannu yn ei gyfoeth a'i gariad at Air Duw yn y seiadau a'n cyfarfodydd gweddi yma. Wrth gwrs, roedd yr ysfa i bregethu'n dal yn gryf, ond roedd cyfle nawr i roi amser yn ei 'ogof' i'w waith fel hanesydd. Er y gwn mai diddordeb a chwilfrydedd oedd yn gyrru llawer ar y gwaith hwn, ei gymhelliant yn y bôn oedd anrhydeddu tystiolaeth Crist ar lawr a daear Cymru, a diogelu'r traddodiad efengylaidd o fewn Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Dyma ran o goffâd a dderbyniais gan y Parch. J. E. Wynne Davies:

'Bu'n aelod ffyddlon o Bwyllgor y Gymdeithas Hanes, ac roedd gan y ddau ohonom yr un awydd i ddiogelu gwir draddodiad efengylaidd yr enwad. Mae'n rhyfeddod, o gofio gofynion y weinidogaeth, sut y llwyddodd i gyhoeddi'n gyson erthyglau i'r gwahanol gylchgronau yn ogystal â'r *Cylchgrawn Hanes*. Ymddangosodd hefyd nifer o gyfrolau gwerthfawr o'i law sy'n dyst i'w ysgolheictod. Traddododd y Ddarlith Hanes ddwywaith a chyhoeddwyd ei Ddarlith Davies, *Canu Cynnar y Diwygiad Methodistaidd*. Yn ffrwyth ei lafur a'i ymchwil, enillodd raddau MA a PhD Prifysgol Cymru. Daeth i sylw'r Gymdeithas Hanes drwy ei gyfrol *Methodistaeth Llŷn ac Eifionydd*, ffrwyth ei draethawd mewn cystadleuaeth yn Eisteddfod Bro Dwyfor 1975 a gafodd gymeradwyaeth arbennig gan y beirniad, Gomer M. Roberts. Wrth gyflwyno'r gyfrol, dywed R. Gwilym Hughes: "Mae'n eglur, mi dybiaf, y bydd Mr Owen yn cymryd ei le yn hwylus a haeddiannol yn yr olyniaeth o haneswyr campus ... a gafodd y Methodistaidd Calfinaidd." Gwireddwyd hyn, a Goronwy yn ddiau oedd prif hanesydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd yn ystod y cyfnod diweddar.'

Daeth y cyfnod clo â diwedd ar bregethu Goronwy, ac roedd hyn yn loes garw iddo. Ond ni phallodd ei fflam i'r diwedd. Dyma'i dystiolaeth gyhoeddus olaf: 'Yr wyf am i'm corff gael ei gladdu yn nhir a daear Cymru, gan ddefnyddio'r geiriau: "mewn gwir a sicr obaith o'r atgyfodiad oddi wrth y meirw ar alwad fy Annwyl Arglwydd Iesu, yr hwn a'm carodd ac a'm gwaredodd oddi with euogwydd pechod trwy rinwedd ei waed, ac a'm galwodd drwy ras i bregethu ei efengyl o edifeirwch a maddeuant yn rhinwedd aberth y Groes".'

Hywel Rhys Edwards

# Rhodd Gostus Crist o Gymod

Cyfres o fyfyrddodau ar gyfer y Grawgan yr Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)

## Wythnos 3: Cyfiawnder Hiliol

'Dros Eglwys sydd â'r dewrder i hyrwyddo cyfiawnder hiliol.'

Ysgrythur: Job 5:1-16

### Myfyrdod

Wrth i fudiad Black Lives Matter herio cydwybod y byd yn dilyn llofruddiaeth George Floyd yn Minneapolis yn 2020, ymunodd eglwysy'r ynysoedd hyn ag eraill i gynyddu neu adnewyddu eu sylw i waith cyfiawnder hiliol. Wrth i ni gyrraedd trydydd pen-blwydd marwolaeth George Floyd, y gobaith yw y bydd y ffocws diweddar hwn yn peri newid parhaus sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn ac a gaiff ei integreiddio i fywyd a chenhadaeth cymunedau ein heglwys leol – er ein bod yn dal i aros i weld ai dyma fydd yn digwydd,

Wrth fyfyrion ar brofiadau eglwysy Minneapolis fel rhan o'r Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol eleni, cawsom ein hatgoffa am drasiedi arall a ddigwyddodd yn y Deyrnas Gyfunol ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, sef llofruddiaeth Stephen Lawrence. Cafodd y modd bwystfillaidd a disynnwyr y torrwyd einioes y gŵr ifanc hwn yn fyr, a'r ymdrechion dyfal y bu'n rhaid i'w deulu eu cyflawni er mwyn ymladd dros gyfiawnder a dinoethi'r hiliaeth sefydliadol oedd yn amddiffyn llofruddwyr yn hytrach na dioddefwyr, effaith ddwys ar gymunedau ledled yr ynysoedd hyn. Ac eto, yn y gwaith a wnaed gan CTBI, mewn partneriaeth ag eraill, ym maes cyfiawnder hiliol yn y blynyddoedd diwethaf hyn, rydym yn parhau i ddod ar draws lefelau uchel o ofn a dieithrio ymhlith cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a gwrthwynebiad i gynnal deialog ynglŷn â hil mewn rhai cymunedau.

Mae gwaith cyfiawnder hiliol yn cartrefu'n naturiol o fewn strwythurau eciwmenaidd oherwydd bod y rhai sy'n gwneud y gwaith yma eisoes yn gwerthfawrogi amrywiaeth. Mae ganddyn nhw hefyd ddyhead i ddysgu am brofiadau pobl eraill, ac maent yn barod i glywed gwirioneddau anodd ynglŷn â sut gallai ein gweithredoedd neu ddiffyg gweithredu fod wedi effeithio'n



anffafriol ar eraill. Ceir dealltwriaeth o fewn y mudiad eciwmenaidd na allwn ddisgwyl i gymod ac adferiad perthynas ddigwydd ar ein telerau ni. Gall fod yna bris i'w dalu, angen i roi, gwneud lle ac i wneud yn iawn. Adlewyrchir yr ysbryd hwn wrth hyrwyddo Sul Cyfiawnder Hiliol, a gafodd ei gynnal ar 12 Chwefror eleni, ac sydd â'i wreiddiau yn ymateb yr eglwys i lofruddiaeth Stephen Lawrence.

Er hynny, mae yna rai, hyd yn oed o fewn gwaith rhyng-eglwysig, sy'n ystyried bod sgwrsio am amrywiaeth yn weithred all achosi rhwygiadau. Yn hytrach nag oedi gyda chlwyfau'r gorffennol, awgrymant y dylem edrych tuag at ddyfodol lle gall pawb gael eu trin yn yr un modd, gan y bydd gennym oll yr un hawliau a diogelwch cyfreithiol. Mae'r pryder sydd ynghlwm â dinoethi clwyfau cymdeithas yn un dealladwy, oherwydd fe all y gwaith o gymodi fod yn boenus ac anniben. Gallwn deimlo nad oes gennym y cyfarpar i allu rhoi at ei gilydd yr hyn sydd wedi'i dorri'n deilchion ers cyhyd.

Dyma lle gall yr adnoddau a ganfyddwn yn ein ffydd ein helpu i adeiladu hyder wrth i ni geisio cael pobl i gwrdd o amgylch y ford. Dywedir wrthym yn narlleniad heddiw o'r Ysgrythur i ymbil ar Dduw i roi gobaith i'r tlodion, ac i roi taw ar anghyfiawnder. Gall creu gofod er mwyn gwrandao ar brofiadau byw'r sawl sydd wedi dioddef o anghyfiawnder olygu bod yn anghyfforddus a chreu ansicrwydd. Ond mae hwn eisoes yn gam tuag at iacháu, a thuag at greu cymdeithas fwy cyfiawn a thrugarog fydd yn fwy diogel i bawb. Dywedir yn aml ein bod, wrth i ni dawelu dioddefwyr anghyfiawnder, yn rhoi lloches i'r rhai sy'n trosedd, ond byddwn hefyd yn eu hamddifadu o'r cyfle i brofi'r newid yn eu calonnau a all ddigwydd yng ngoleuni ffydd.

### Cwestiynau

- Darllenwch erthygl neu gwrandewch ar gyfweiliad am berthynas hil neu amrywiaeth a bod yn gynhwysol. Beth sy'n eich calonogi yn eich myfyrdod

neu eich sgwrs? Beth sy'n achosi pryder i chi?

- Yng nghyd-destun eich cymuned leol, ymhle welwch chi ganlyniadau mwyaf niweidiol anghyfiawnder hiliol, ymrannu ac anghydraddoldeb?
- Ble fyddwch chi'n clywed y sgysiau mwyaf gonest neu ysbrydoledig ynglŷn â chyfiawnder hiliol yn cael eu cynnal? Beth ellir ei ddysgu a'i rannu o'r enghreifftiau hyn o arfer da?

### Camau Gweithredu

- Edrychwch ar adran benodol cyfryngau cymdeithasol CTBI ar gyfer yr Wythnos o Weddi dros Undod Cristnogol er mwyn ystyried sut mae eglwysy mewn gwahanol lefydd ar yr ynysoedd hyn wedi tystiolaethu i'r cysylltiad rhwng eciwmeniaeth a chyfiawnder hiliol. Beth allech chi ei ddysgu gan hyn er mwyn helpu i gadw ffocws rheolaidd ar faterion yn ymwneud â chyfiawnder hiliol yn eich gwaith eciwmenaidd ac wrth estyn allan?
- Gwrandewch ar un neu fwy o'r tystiolaethau a rennir ar [weminar](#) Hyrwyddwyr Cyfiawnder Hiliol. Oes modd i chi ganfod unrhyw bwyntiau gweithredu sy'n deillio o'r profiadau hyn i'ch eglwys neu eich rhwydweithiau eciwmenaidd?
- Ystyriwch sut mae profiadau o gyfiawnder hiliol a pherthyn yn cael eu profi gan wahanol genedlaethau. Allech chi drefnu deialog rhwng sawl cenedlaeth ar y thema hon, gan ganolbwyntio'n arbennig, efallai, ar sut mae'n effeithio ar bobl ifanc a'u hymdeimlad o obaith ar gyfer y dyfodol?

### Gweddi

Dduw cariadus,  
Rho i ni'r dewrder i wynebu creithiau anghyfiawnder hiliol: er mwyn cefnogi'r rhai sydd wedi dioddef i rannu eu poen heb ofni cael eu tawelu neu eu gwawdio; i helpu'r rhai sydd wedi elwa o freintiau i ystyried cost y breintiau hynny i eraill. Arwain yr Eglwys i fod yn fan gobaith a chefnogaeth mewn cymunedau sydd wedi dioddef yn sgil dieithrio ac ofn, gan atgyfnerthu eu hapêl am gyfiawnder. Cadw ni rhag bod yn hunanfodddhaus ynglŷn â pherthnasau a dorrwyd a chryfha ein penderfyniad i gyflawni gwaith anniben a phoenus cymod. Amen.

S4C

**Dechrau Canu, Dechrau Canmol**  
Sul, 12 Mawrth, am 7.30yp

Mae 8 Mawrth yn Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched. A hithau'n ganmlwyddiant Apêl Merched Cymru dros heddwch byd-eang, cawn gyfarfod criw o ymgyrchwyr sy'n benderfynol o ddod â'r hanes cudd yma i'r golwg.

BBC radio cymru

**Caniadaeth y Cysegr**

Sul, 12 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp

Modlen Lynch yn trafod cyfraniad merched i'n hemynyddiaeth

**Sul, 12 Mawrth, am 12:00yp**

Oedfa sgwrs gydag Emyr Lewis, y sylwebydd rygbi

## Caffi yn y Festri



Wrth gerdded i mewn i festri capel Tabor ym mhentre Dinas ar arfordir gogledd Penfro, cewch wledd i'r llygaid sy'n gwbl wahanol i unrhyw festri arall yng Nghymru. 'Ers y gwaith i drawsnewid yr adeilad, mae'r caffis sy wedi bod 'ma wedi bod yn llewyrchus dros ben – a'r lle yn aml wedi bod yn llawn dop!' esbonia Morys Rhys, ysgrifenydd capel Tabor. Defnyddio adeilad y capel i greu canolbwynt cymunedol newydd wnaeth Tabor, a chael bendith wrth wneud hynny.

'Dechreuodd y syniad ymhell dros ddegawd yn ôl,' meddai Alwyn Daniels, gweinidog y capel ar y pryd, 'pan redon ni gyfres o fyfyrddodau yma dros y

Grawys, gyda choffi a chlonc wythnosol yn rhan o hynny. Wnaethon ni ddim byd i ddechrau, ond pan ddaeth hi'n 2016 roedd problemau tamprwydd ac oerni wedi cyrraedd y pwynt lle roedd raid gwneud rhywbeth. A dyma geisio newid yr her yn gyfle!



Roedd ysgol y pentre wedi cau, ac er bod traeth poblogaidd Cwmyreglwys dafliaid carreg yn unig o safle'r capel, doedd dim un caffi yngymuned. Penderfynodd yr aelodau wario'r arian angenrheidiol er mwyn trawsnewid y lle, er budd yr eglwys a'r gymuned ehangach – gan sicrhau nad oedd y bwriad o agor caffi yno'n cystadlu â dim arall oedd yn yr ardal. Er bod yr adeilad yn rhestredig,

cafwyd y caniatâd angenrheidiol i wneud y newidiadau a gosodwyd cegin newydd sbon a thai bach o fewn yr adeilad, yn ogystal â gwneud gwaith strwythurol arall. Ac, yn ffodus iawn, roedd maes parcio sylweddol eisoes gan yr eglwys, a hynny o fudd mawr wrth newid defnydd yr adeilad i fod yn gaffi.

'Cawson ni gymorth gan adeiladwr â'i wraig yn aelod gyda ni, ac roedd gyda ni ferch yn aelod hefyd oedd eisiau rhedeg caffi. Ac yn 2018 agorwyd Bara Brith yma – ac mae'n deg dweud ei fod yn llwyddiant mawr,' cytuna'r ddau. 'Roedd e'n rhoi cyfle i bobl ddod allan bedwar diwrnod yr wythnos am ginio neu am goffi, ac yn enwedig i bobl hŷn yn yr ardal roedd cael hynny yn gwneud byd o wahaniaeth. Byddai pobl o gartref i'r anabl sy gerllaw yma'n dod allan i'r caffi, a hefyd pobl ar eu *laptops* fyddai fel arall gartre yn gweithio ar eu pen eu hunain, a lle fel hwn yn adnodd gwerthfawr mewn ardal wledig.'

Bu'n rhaid i Bara Brith gau yn sgil y pandemig, ond daeth busnes newydd Te Orinda i gymryd ei le ar y safle. Ac mae'n dal i ddefnyddio'r lleoliad fel caffi gan gynnig te prynhawn. 'Rwy'n falch dros ben ein bod ni wedi mynd amdani gyda'r fenter yma. Dyw'r eglwys ddim wedi gwneud ceiniog o elw, wrth gwrs, ac nid dyna yw'r pwynt o gwbl. Mae'n rhan o'n cenhadaeth trwy ein bod yn cynnig rhywbeth o ddefnydd a budd cymunedol,' atega Morys.

## Tost a Phaned yng Nghapel Tudweiliog

Gan fod gennym gegin fodern a festri gynnes, penderfynwyd, dan arweiniad Gwyn Rhydderch, agor y festri ar foreau dydd Mawrth i gynnig paned a thost i unrhyw un â diddordeb, er mwyn cael pobl at ei gilydd i gael cwmniaeth, sgwrsio, chwarae gemau a chwis. Daeth criw o bobl y pentref yno i ddechrau, ond o dipyn i beth mae yna rai o ardaloedd eraill wedi ymuno â ni. Brafw y cael rhoi croeso cynnes i'r rhai sy'n dod drwy'r drws a chynnig te neu goffi a thost.

Mae pobl wedi dod i adnabod ei gilydd yn dda ac yn edrych ymlaen at yr un nesaf bob tro. Brafw y cael dangos i bobl fod croeso cynnes o fewn muriau'r capel i bawb. Hir y parhaed.

*Olwen Williams*



# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Torri syched yn Sychar

Emyn 223 – ‘Mawl fo i’r Arglwydd’

Darlenniad – Salm 95

Gweddi

Arglwydd, fe wŷr ein calonnau beth yw siomi wrth i ni brofi dyfroedd chwerwon ‘Meriba’ a gwyddom am galongaledwch ein ‘Massa’. Cadw ni rhagysbryd o rwgnach i’th erbyn. Down atat i flasu dy ‘orffwys’ di a’r llawenydd o fod yn dy bresenoldeb. Ymostyngwn o’th flaen fel ein crëwr, fel ein bugail, fel yr Arglwydd. Addolwn di; ymgyrwmn ger dy fron. Llanwa ni â chaneuon mawl, drwy dy Ysbryd. Amen.

Darlenniad – Ioan 4:5–42

Cenhadon heddi

Gwelsom yr wythnos diwethaf sut y daeth Nicodemus mewn tywyllwch at Iesu. Gadawodd fel un a dystiai o blaid Iesu, hyd yn oed pan oedd y sefydliad crefyddol am ei ddifa (Ioan 7:50–51; 19:39). Yn annisgwyl, efallai, trodd y wraig ddiennw hon o Samaria yn dyst i Iesu a ‘daeth llawer o’r Samariaid o’r dref honno i gredu yn Iesu drwy air y wraig’ (adn. 39).

Ysbrydol?

Ar y cyfan, nid yw’n anodd codi sgwrs gyda phobl am bethau ‘crefyddol’ gan fod gan bob un byw ei brofiad, ei ddehongliad a’i farn am ystyr neu werth bywyd, neu gred am yr hyn a ddigwydd i ni ar ddiwedd ein rhawd ddaearol. Daw diwedd buan ar y sgwrsiau, fodd bynnag, pan awn heibio i bethau ‘crefyddol’ cyffredinol i sôn am eiriau Iesu, am y groes, am yr angen am aberth dros bechod a choncwest ar angau a phwerau difaol a chythreulig. Rhwydd yw cuddio’r tu ôl i’r ‘ysbrydol’ annelwig. Anghyfforddus yw sefyll ym mhresenoldeb rhoddwr yr Ysbryd Glân!

Llythrennol o lythrennol

Mor llythrennol o lythrennol y medrwn fod wrth i ni drafod pethau ysbrydol! Ni fedrai Nicodemus, er ei wybodaeth a’i gymhwyster i fod yn ‘Athro Israel’, ddirnad bod angen i bob un sydd am ‘weld’ teyrnas nefoedd gael ei eni o’r newydd, oddi uchod, yn ysbrydol, o ddŵr ac o’r Ysbryd. Ni ddeallai’r wraig o Samaria mai cyfeirio at ‘ddŵr’ bywiol’ ysbrydol a wnâi Iesu, ac nid at ddŵr o ffynnon ddaearol. Er mor ddwfn, neu oesol, oedd y ffynnon yr oedd yn reddfol neu drwy arferiad am dynnu ohoni,

ni ddeuai’r dŵr bywiol a ddyheai amdano, ac a ofnai yr un pryd, o’r ddaear.

Tebyg, mor debyg

Er mor ymddangosiadol wahanol oedd y wraig o Samaria, o ran ei gwybodaeth a’i statws, i Nicodemus, yr un oedd ei hangen am brofi’r Ysbryd Glân yn ei bywyd. A’r un oedd yr hwn, Iesu, a fedrai roddi iddi’r hyn y sychedai ei henaidd amdano.

Torri’r confensiynau

Er mwyn ei chyrraedd, torrodd Iesu ar draws confensiwn ei ddydd, confensiwn a fynnai na ddylai Iddew rannu llestr gyda Samariad. Ni ddisgwylid y byddai ‘Rabbi’ parchus, ac yntau’n ddyn ar ei ben ei hun, byth yn cyfarch gwraig, heb sôn am sgwrsio â gwraig, ar ei phen ei hun.

Yno, wrth ffynnon Jacob, torrodd rhoddwr gras bob disgwyliad er mwyn disychedu gwraig anghenus. Yno, yng ngwres y dydd, wrth iddi ymwneud ag Iesu, fe’i gorfodwyd ganddo i wynebu blerwch ei bywyd a’i hangen ysbrydol. (Pam oedd hi ar ei phen ei hun? A oedd hi’n cael ei hystyried yn wraig anfoesol? Ai amgylchiadau trist neu ddewisiadau moesol a barodd iddi gael pump o wŷr yn ychwanegol i’r hwn oedd yn cyd-fyw â hi ar y pryd?)

Codi sgwarnog

Dechreuodd geiriau Iesu ei hanesmwytho. Ymatebodd y wraig i bresenoldeb ac i eiriau Iesu (fel y gwnawn ni yn fynych) drwy geisio osgoi’r ergyd yn ei air. Ceisiodd guddio mewn drysfa ieithyddol. Ceisiodd guddio’r tu ôl i hanes, tras a thraddodiad ieithwedd grefyddol gan ryddhau ambell sgwarnog i dorri ar draws rhediad a chyfeiriad y sgwrs.

Onid oedd y dŵr y sychedai Iesu amdano gan troedfedd yn rhy ddwfn iddo estyn ato i’w ddisychedu ei hun heb lestr addas? Wyt ti’n fwy na Jacob a gloddiodd y pydew hwn, pydew a gynhaliodd genedlaethau o’i ddisgynyddion? Neu tybed, onid mater o farn neu arferiad diwylliannau gwahanol oedd priodoldeb addoli yn Samaria neu Jerwsalem?

Heliwr grasol

Ond er pob ymdrech i newid y pwnc, mynnai Arglwydd Gras ei thynnu yn ôl at y trywydd a’i harwain yn dyner ar hyd llwybr na fynnai, ohoni ei hun, ei droedio! Nid yn Jerwsalem, nid yn Samaria y mae’r ateb

i’th syched. Ni ddeuai o hyd i’r hyn yr oedd ei chalon yn wir ddyheu amdano mewn lleoliad arbennig, nac mewn defod, na thras neilltuol. Roedd yr awr wedi dod i wir addolwyr addoli mewn gwirionedd ac yn yr Ysbryd.

Dyfroedd llonydd oedd cynnwys pob pydew arall. Roeddynt oll yn debyg i’r ffynnon ger Sychar oedd yn crynhoi dŵr o’r ardal gyfagos. Er mor ddwfn oedd y ffynnon, dŵr llonydd oedd y cyfan a grynhowyd ynddi.

Roedd y rhodd oedd ganddo ef fel ‘dŵr bywiol’, ffres a blasus, ffrwd llifeiriol, diod oedd yn abl i dorri syched dyfnaf pob un byw.

Yn y pen draw tri pheth yn unig oedd angen iddi hi (a ninnau hefyd) bwylllo i’w hystyried.

‘*Pe bait yn gwybod beth yw rhodd Duw*’. Ni all unrhyw feddwl cnawdol ddychmygu’r hyn a ddarparodd Duw i ddisychedu’r galon fwyaf hesb, ddyfnaf ei hangen. Rhodd Duw, drwyddo ef ei hun, meddai Iesu, yw’r ‘Ysbryd’, y dŵr bywiol sy’n ‘troi yn ffynnon o ddŵr yn ffrydio’n fyrlymus i fywyd tragwyddol’. Arwydd o’n gwrthryfel fel hil, ac fel unigolion, yw ein bod wedi cefnu ar ddŵr y ffynnon fywiol i gloddio pydewau i ni ein hunain na ddalient ddim all gwrdd â’n hangen dyfnaf (Jeremeia 2:13).

Un peth yw cydnabod syched; peth arall yw adnabod ‘*pwys sy’n gofyn i ti*’. Iesu yw’r un a fynnodd fod ganddo’r hawl, fel yr Arglwydd Dduw ei hun yn yr Ysgrythurau Iddewig (Eseia 55), i wahodd pobl ato’i hun er mwyn eu diwallu. Iesu ei hun yw rhoddwr y ‘dŵr bywiol’ a chanolbwynt gwaith yr Ysbryd.

Canlyniad rhesymol, amlwg, adnabod ein hangen ysbrydol fyddai ‘*gofyn iddo ef*’. Gofyn iddo dorri ein syched. Gofyn ganddo a gwybod y ‘byddai ef wedi rhoi i ti ddŵr bywiol’. Gofyn a wnawn gan sylweddoli, er mor anhaeddiannol ydym, ei fod yn hael, yn rasol, yn rhoi heb ddannod.

Ac wedi gofyn, a derbyn y rhodd, profwn y ffrwd fywiol, barhaus, yn llifeirio atom, ynom a thrwom i ‘fywyd tragwyddol’.

Gweddi

Arglwydd, sychedig wyf o’th flaen. Llanwa fi â’r Ysbryd Glân. Gad i mi ddrachtio o’r ffrwd fywiol heddiw. Amen.

Emyn 328 ‘Y Gŵr wrth ffynnon Jacob’

Cynhwysir pennill ychwanegol sy’n adleisio ein myfyrdod yn: <http://www.gobaith.cymru/y-gwr-wrth-ffynnon-jacob/>

RWJ

Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)  
[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)